**Ysgol Reoledig Wirfoddol Betws yn Rhos**

**Betws yn Rhos Voluntary Controlled School**

**Pennaeth•Headteacher:**
**Mrs Carys E. Wellsbury**
☎ 01492 680603
pennaeth@betwsynrhos.conwy.sch.uk
www.ysgolbetwsynrhos.com

**Betws yn Rhos**
**Abergele**
**Conwy**

**LL22 8AW**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI 2021-2022

Pleser yw cyflwyno yr Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i rieni ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022. Ymddiheuriadau nad ydym wedi rhannu yr adroddiad yn gynt gyda chi. Fel canlyniad i'r Ddeddf Trefniant Safonau ac ysgolion a ddaeth i rym yn Mai 4ydd, 2013, nid oes bellach ofyn i'r Bwrdd Llywodraethol i gynnal Cyfarfod Blynyddol onibai fod 10% o rieni'r ysgol yn mynegi diddordeb i gynnal y fath gyfarfod. Mae'n ofyn statudol fod pob Bwrdd llywodraethol yn paratoi adroddiad bob blwyddyn i adrodd yn ôl ar waith y bwrdd a'r ffordd mae'r llywodraethwyr, Pennaeth a'r awdurdod lleol wedi cario allan eu dyletswyddau. Pwrpas yr adroddiad blynyddol yw i gynnwys rhieni yn agosach at fywyd yr ysgol.

### Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol.

Mae'r bwrdd Llywodraethol yn cynnwys 11 person. Gwelir y tabl isod ar gyfer manylion o aelodau'r bwrdd ar ddiwedd Gorffennaf 2022 a'u cyfnod o wasanaeth.

| | | |
|---|---|---|
| Rhiant Lywodraethwr | Mrs Rachel Jones | 2020 - 2024 |
| Rhiant Lywodraethwr | Mrs Lois Hatfield | 2019 - 2023 |
| Llywodraethwr sail | Parchedig Gareth Erlandson | 2021 - 2022 |
| Awdurdod Addysg Lleol | Mr Hefin Williams | 2012 - 2022 |
| Awdurdod Addysg Lleol | Mr Ifor Lloyd | 2016 - 2022 |
| Aelod cymunedol | Mr John Wheway | 2016 - 2022 |
| Aelod cyfetholedig | Mr Tudur Jones | 2011 - 2022 |
| Llywodraethwr sail | Dr Ceridwen Churchill | 2020 - 2024 |
| Llywodraethwr staff dysgu | Mrs Rowena Pegg | 2011 - 2022 |
| Rhiant Lywodraethwr | Mr Ywain Williams | 2018 - 2022 |
| Pennaeth | Mrs Carys Wellsbury | |
| Clerc | Mrs Sara Pierce Jones Rheolwr busnes | 2022 ymlaen |

**Staffio a threfniadaeth 2020-2021**

| | |
|---|---|
| Mrs Carys Wellsbury | Pennaeth ac athrawes Blwyddyn 4,5,6 |
| Mrs Sioned Evans | Athrawes Blwyddyn 2 a 3 |
| Mrs Rowena Pegg | Athrawes Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 |
| Miss Gwawr Evans | Athrawes rhan amser |
| Miss Anest Jones | Athrawes Meithrin a Bl2/3 |
| Mrs Eira Vickers | Cymhorthydd dosbarth Cyfnod sylfaen |
| Miss Esyllt Williams | Cymhorthydd dosbarth /Ysgrifenyddes |
| Gayle George | Gofalwraig |
| Mrs Eifiona Birkhead | Cogyddes |
| Mrs Becka Barham | Cymhorthydd I'r Gogyddes |

**Datganiad cyllidol- Gwariant cyfalaf a dderbynnwyd o'r Awdurdod Addysg Lleol**
Mae'r ysgol yn gyfrifol i redeg ei gyllid ei hun sy'n cael ei rannu i ni o'r awdurdod Addysg Lleol. Y flwyddyn cyllid yw 1af o Ebrill 2021 i'r 31ain o Fawrth 2022. Dyma grynodeb o'r datganiad cyllid. Ni nodwyd unrhyw wariant ar gyfer Llywodraethwyr.

| Cyllideb 2021-2022<br>£379,015 | Gwariant 2021-2022<br>£324,046 | Gwahaniaeth + neu –<br>+£54969 |
|---|---|---|
| Balans i gario drosodd i 2022/2023 cyllid = £54,233 15% | | |

**Codi arian PTA**
Nid yw wedi bod yn bosib eleni i godi arian trwy wahanol weithgareddau PTA oherwydd y Pandemig Covid a dilyn asesiad risg yr Ysgol I leihau unrhyw achosion.

**Cyfarfod blynyddol Agored**
Ni gynhaliwyd cyfarfod blynyddol agored yn ystod y flwyddyn 2021-2022 oherwydd cyfyngiadau COVID.

**Prospectws yr ysgol**
Adolygwyd y prospectws a'i ddiweddaru ar gyfer 2021-2022 i gydfynd gyda gofynion statudol. Mae copiau ar gael yn yr ysgol ac fe'i cyhoeddir ar safwe'r ysgol, sef www.ysgolbetwsynrhos.com

**Cynllun Datblygu Ysgol 2021-2022**

**BLAENORIAETH 1:**
Mapio taith ar gyfer y cwricwlwm diwygiedig, gan sicrhau ffocws clir ar brosesau hunan arfarnu.

**BLAENORIAETH 2:**
Sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y cod ADY ac ein bod yn ymateb i'r newidiadau.

**BLAENORIAETH 3 :**

Codi safonau'r Gymraeg drwy'r ysgol er mwyn galluogi pob disgybl ddal i fyny ac i gyflawni hyd eithaf ei allu.

**Trefniadaeth Cwricilaidd**
Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg- Categori 1 ar gyfer plant 3 - 11oed yw Ysgol Betws yn Rhos. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu a'r

disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae’r ysgol yn cyfathrebu a’r rhieni yn ddwyieithog.
Mae'r disgyblion 3-7oed yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn symud i Gyfnod Allweddol 2 pan maent yn 7 oed.
Ers Medi 2011, mae'r goblygiadau o'r Cyfnod Sylfaen yn statudol ar gyfer pob plentyn o dan 7 oed yng Nghymru. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i sylfaenu ar Llythrennedd, Rhifedd, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Datblygiad Corfforol,Datblygiad Creadigol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol. Mae'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau'r disgyblion drwy ysgogi profiadau a gweithgareddau ar themau gwahanol.
Yng Nghyfnod Allweddol 2 , mae'r holl bynciau cwricilaidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg gwybodaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Addysg Gorfforol, Cerdd ac Addysg Grefyddol yn cael eu dysgu gyda amser penodol i bob pwnc sy'n cyrraedd gofynion statudol.
Ers Medi 2015, mae'r fframwaith llythrennedd a Rhifedd a Cymhwysedd Digidol wedi ei integreiddio i weithgareddau cwricilaidd.
Mae disgyblion 7 a 11 mlwydd oed yn cael eu hasesu yn y pynciau craidd - Llythrennedd, Rhifedd, Sgiliau Personol a Chymdeithasol i'r Cyfnod sylfaen a mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Ers Haf 2013, mae Blwyddyn 2-6 yn cael eu hasesu'n flynyddol mewn darllen a rhifedd. Mae'r asesiadau hyn yn statudol i bob ysgol yng Nghymru. Nid yw’r disgyblion yn cael eu cymharu’n genedlaethol o hyn allan.

Ar hyn o bryd mae’r Ysgol wrthi’n cynllunio a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd a fydd yn weithredol o 2022 ymlaen.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Darpariaeth ar gyfer anghenion arbennig.**
Mae polisi ADY yr ysgol yn galluogi'r ysgol i adnabod disgyblion allai fod angen cymorth ychwanegol. Bydd mwyafrif y disgyblion yn dilyn darpariaeth o fewn y dosbarth. Ar rai adegau bydd disgyblion gyda anhawsterau dysgu dwys angen cymorth un i un ar gyfer rhan o'r amser. Gall yr AALL gynnal hyn ar ôl datganiad o Anghenion dysgu ychwanegol gael ei gytuno gyda rhieni. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blentyn o fewn yr ysgol ddatganiad ar gyfer Anghenion dysgu ychwanegol. Ar gyfer disgyblion ADY arall darperir Cynllun Addysg Unigol. Bydd y disgyblion hyn yn derbyn gwaith wedi'i wahaniaethu o fewn y dosbarth.

- Rhoddir 11/2 awr bob wythnos i'r cydlynydd ADY ar gyfer sesiynau unigol, ac 1 athrawes i helpu gyda sillafu dyddiol a gweithgareddau darllen.
-

**Disgyblion gydag anabledd ac anghenion dysgu Ychwanegol.**
Gan ddilyn ein polisi cydraddoldeb mae gan yr ysgol bolisi ddrws agored ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd mynediad i'r ysgol yn cael ei gytuno rhwng yr ysgol, rhieni a'r AALl hynny yw os yw ein cyfleusterau a'n fframwaith yn caniatau mynediad i'r plentyn. Mae gan yr ysgol ramp yn mynd mewn i un ystafell a mae gennym doilet i'r anabl. Does dim gwaith newydd angen ei wneud y flwyddyn yma. Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd fel y bo'r angen. Ni godwyd unrhyw bryderon yn yr Adroddiad Arolygwyr diweddaraf.

Mae cynllun hygyrchedd yn bodoli yn yr ysgol.Mae'r adeilad yn addas ar gyfer yr anabl, a mae un toilet ar gyfer eu defnydd.

Mae gan y plant doiledau yn y prif adeilad a’r neuadd.  Mae gan y neuadd ddau doiled sy’n addas i ferched a bechgyn.
Mae toiled bechgyn a merched ar wahan yn y brif ysgol.  Mae un guddygl ac wrinal yn nhoiledau’r bechgyn.
Mae toliedau’r merched yn cynnwys dri cuddygl toiled.
Mae’r Cyfnod Sylfaen gyda dau doiled rhyngddynt a dau sinc.

Mae gan bob toiled arall dri sinc golchi dwylo.  Mae sebon gwrthfacteria a sychwr dwylo awtomatig i sychu dwylo.
Mae'r holl doiledau yn cael eu glanhau ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
I gadw at ein asesiad risg eleni mae pob dosbarth dim ond wedi defnyddio toiledau eu hunain.

**Etholiad Cadeirydd ac Is- gadeirydd 2021 - 2022**
Ail etholwyd Dr Ceridwen Churchill yn gadeirydd ar gyfer y cyfarfod cyntaf o'r Llywodraethwyr yn yr Hydref 2021 a Mr Ywain Williams oedd yr Is Gadeirydd.

**Gwaith y Bwrdd Llywodraethol.**
Trwy gydol y flwyddyn, mae'r bwrdd llywodraethol wedi parhau i gynnal cyfarfodydd pob hanner tymor trwy Teams, gan fod yn bresennol mewn cyfarfodydd llawn ac yn cyfrannu i is bwyllgorau fel bo angen.

**Polisiau yn ystod y flwyddyn.**

Derbyniadau. Amddiffyn Plant. Cyflog. Rheolaeth Perfformiad, Gwariant Pennaeth, Cyfle Cyfartal, Cynllun Mynediad,

**Monitro**
Mae Staff ysgol wedi monitro y dysgu a'r addysgu yn ystod y flwyddyn. Ymwelodd rhai o'r Llywodraethwyr â'r Ysgol eleni ar gyfer trafodaethau gyda cydlynwyr meysydd dysgu a phrofiad er mwyn dod yn fwy cyfarwydd a'r Cwricwlwm i Gymru.

**Presenoldeb ysgol 2021- 2022**
Nifer o ddisgyblion llawn amser 67 a 13 rhan amser = 80
Presenoldeb y flwyddyn: 90% ( isel oherwydd Covid 19)
Absenoldeb anawdurdodedig: 0%

**Diogelwch yr ysgol**
Mae'r lefel presennol o ddiogelwch yn ddigonol i gyrraedd anghenion y disgyblion a'r staff i gyd. Mae'r system diogelu yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Cynhelir dril tân bob tymor. Mae pob teclyn trydanol yn cael ei archwilio yn ystod y flwyddyn. Mae gan yr ysgol 3 aelod o staff sydd wedi gwneud yr hyfforddiant Cymorth Cyntaf a dilynir y canllawiau cywir pan fydd angen defnyddio cymorth cyntaf.

- Mae'r larwm ysgol a'r larwm Tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.
- Doedd dim argymhellion yn dilyn yr Arolwg Arolygu diwethaf .
- Ers ail agor  ar ol y cyfnod clo cyntaf rydym yn dilyn asesiad risg manwl ar gyfer cadw pawb yn saff.

-

**Diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd Staff 2021-2022**
1/9/21- Cynllunio a Paratoi yn yr ysgol
22/10/21 – Cydweithio clwstwr - rhithiol
29/11/21 –Cydweithio clwstwr
24/6/22 – HMS Ysgol
18/7/22 – HMS Oriau Gwyll
19/7/22 – HMS Oriau Gwyll/Diwrnod Lles

**<u>Cysylltiadau gyda'r gymuned</u>**
Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r gymuned. Cefnogir yn flynyddol Diolchgarwch a'r Gwasanaethau Pasg, Eisteddfod yr Urdd a Calan, Sioe Betws, Cyngerdd Nadolig, Chwaraeon a

gwasanaeth ffarwelio yn ogystal a gweithgareddau Rhieni ac Athrawon sy'n cael eu trefnu fel arfer bob blwyddyn. Nid ydym wedi gallu cyflawni y mwyafrif o'r rhain eleni oherwydd y cyfnod clo.

**Darpariaeth ar gyfer amcanion chwaraeon**

Defnyddir y neuadd bentref,cwrt tenis a'r cae ar gyfer Addysg Gorfforol drwy gydol y flwyddyn. Nid ydym wedi bod yn rhan o unrhyw dwrnamentau eleni oherwydd y cyfnod clo.

**Targedau ar gyfer 2022-2023**.

1.Datblygu'r themau trawsgwricilaidd o fewn Cwricwlwm i Gymru.

2.Datblygu'r syniad o ddysgu ar sail ymholiad i sicrhau dyfnder dysgu, mireinio a chymhwyso sgiliau, a chreu cysylltiadau a throsglwyddo eu dysgu i gyd destunau newydd.

3.Datblygu cyd–ddealltwriaeth o gynnydd dysgwyr ar draws yr Ysgol drwy sefydlu prosesau cofnodi ac asesu cynnydd dysgwyr

4.Cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu sgiliau trafodaeth grwp yn y Gymraeg i godi safonau sgiliau llafar Cymraeg y disgyblion.

**Proses Cwynion yr ysgol**

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion i sylw'r Pennaeth yn gyntaf, drwy alwad ffôn, llythyr neu drwy apwyntiad. Fel arfer gellir datrys problemau yn gyflym ac yn anffurfiol o fewn yr ysgol. Os nad yw hyn yn bosib gall rhieni gysylltu gyda Cadeirydd y Llywodraethwyr trwy anfon ebost i swyddfa@betwsynrhos.conwy.sch.uk neu'r swyddog cyswllt i'r ysgol o'r AALl.

**Oriau dysgu a'r Diwrnod ysgol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sesiwn y bore: | 9:00 - 12:00pm | Meithrin | 9.00 – 11.00am |
| Pnawn- Babanod | 1:00 - 3:00pm | Adran Iau | 1:00 – 3:30pm |

Atodir dyddiadau'r tymhorau 2022-2023 i'r prospectws.

*Llwyddo gyda'n gilydd!*
*Succeeding together!*